# Bioamrywiaeth
## yn Sir Ddinbych



## Sut fedraf i helpu bioamrywiaeth lleol a bod yn gysylltiedig â CGBL Sir Ddinbych?

- Mae Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych yn trefnu nifer o ddigwyddiadau i'ch helpu i adnabod, profi a helpu i ddiogelu bioamrywiaeth, ac mae angen gwirfoddolwyr arnynt i wneud arolygon o fywyd gwyllt a gwaith ymarferol.

- Cofnodi'r bywyd gwyllt sydd yn eich gardd, ac adrodd yn ôl yr hyn yr ydych yn ei weld i'ch swyddog bioamrywiaeth.

- Ymunwch â grŵp cadwraeth leol neu trefnwch daith gerdded natur a thaniwch frwdfrydedd eraill mewn bywyd gwyllt.

- Beth am annog y cwmni rydych yn gweithio iddo i greu ardal bywyd gwyllt neu ddod yn Bencampwr Rhywogaeth neu helpu eich ysgol leol i ddarganfod pa mor ffantastig yw bywyd gwyllt!

Am ragor o syniadau, gwybodaeth am ddigwyddiadau a dysgu mwy am fioamrywiaeth, ymwelwch â **www.bioamrywiaethynsirddinbych.co.uk**

neu cysylltwch â:

- Swyddog Bioamrywiaeth Sir Ddinbych ar 01824 708234
- Ecolegydd Sir ar 01824 708263
- Parc Gwledig Loggerheads ar 01352 810614.

Gellir lawr-lwytho copïau o CGBL Sir Ddinbych o'r wefan ac maent ar gael yn eich llyfrgell leol.

Cynhyrchwyd gan Wasanaethau Cefn Gwlad
Cyngor Sir Ddinbych gyda arian gan Cyngor Cefn Gwlad Cymru



**Beth yw Bioamrywiaeth?**
Bioamrywiaeth yw amrywiaeth ac amlder bywyd. Mae'n cynnwys popeth byw, o'r pryfyn lleiaf i'r goeden fwyaf, a'r cynefinoedd lle maent yn byw.
Mae Bioamrywiaeth i'w ganfod ym mhobman - rydym ni hyd yn oed yn rhan ohoni! Rydym yn dibynnu ar fioamrywiaeth i gadw ein dŵr ac aer yn lan, ein pridd yn ffrwythlon, ac i gyflenwi bwyd, cysgod, dillad a meddyginiaeth i ni. Mae wedi dylanwadu ar ein diwylliant a'n coelion ac mae'n gwella ansawdd ein bywyd.

**Pam ddylem ni bryderu am Fioamrywiaeth?**
Mae llawer o fywyd gwyllt y byd o dan fygythiad ac mae nifer o rywogaethau wedi diflannu'n barod. Yn y DU yn unig, mae dros 100 o rywogaethau wedi diflannu yn ystod y 100 mlynedd diwethaf ac mae llawer o rai eraill yn beryglus o agos i ddiflannu. Ni, a'r modd rydym ni'n camdrin ein hamgylchedd, sy'n bennaf gyfrifol am hyn; dinistrio'n cynefinoedd, achosi llygredd ac yn gorddefnyddio adnoddau naturiol y Ddaear. Fodd bynnag peidiwch ag anobeithio, gallwn fynd i'r afael â hyn, drwy gydweithio i ddiogelu a gofalu am ein bywyd gwyllt a thrwy Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Leol.


**Beth yw Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol?**
Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol Sir Ddinbych (CGBL): Ein Dyfodol Gyda Bywyd Gwyllt yw ein hymgais i ddiogelu ein cornel ni ohoni. Mae CGBL'au yn nodi dulliau penodol o warchod y rhywogaethau a'r cynefinoedd o fewn ein hamgylchedd lleol, nid yn unig y rheiny sydd fwyaf mewn perygl ac yn cael eu diogelu gan y ddeddf, ond y rheiny sy'n bwysig yn lleol hefyd. Caiff ei gydgysylltu drwy bartneriaeth rhwng pobl fedrus a chrefftus a sefydliadau sy'n ceisio annog pawb i gymryd rhan. Mae pawb ohonom yn dibynnu, ac yn mwynhau ein bioamrywiaeth, felly mae gan bawb ohonom gyfrifoldeb i'w ddiogelu.



# Bioamrywiaeth yn Sir Ddinbych
# Biodiversity in Denbighshire


Mae gan Sir Ddinbych amrediad eang o fywyd gwyllt a chynefinoedd sy'n gwneud hi'n le hyfryd i fyw neu i ymweld â hi. O'r arfordir gwyntog yng Ngronant i weunydd mynyddig y Berwyn; bryniau a chreigiau calchog, a dyffrynnoedd culion llethrog i lawr i ddyffryndiroedd ffrwythlon Clwyd a Dyfrdwy. Mae casgliad ffantastig o Fioamrywiaeth o'n cwmpas ym mhobman, ac mae'n ddyletswydd arnom ni ei ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Denbighshire has a diverse range of wildlife and habitats that contribute to making it a wonderful place in which to live or visit. From the windswept coast at Gronant to the high Berwyn mountain moors, limestone hills and crags and narrow, steep-sided valleys down to the fertile vales of the Clwyd and Dee. There is a fantastic array of Biodiversity all around us which we have a responsibility to conserve for future generations.



Briwlys y Calchfaen yw Blodyn Sir Ddinbych. Prin iawn, dim ond yn Sir Gaerloyw ac yma mae'n tyfu.

The limestone woundwort is Denbighshire's County Flower. Extremely rare, it only grows here and in Gloucestershire.



Mae'r ystlum pedol leiaf yn un o nifer o rywogaethau ystlumod sydd i'w canfod yn Sir Ddinbych. Mae wedi diflannu o ran fwyaf o lefydd yng Ngogledd Ewrop.

The lesser horseshoe bat is one of several bat species found in Denbighshire. It has disappeared from most of its northern range in Europe.




Mae tylluanod gwyn yn prinhau oherwydd diffyg cynefin glaswelltir garw sydd ei angen arnynt i hela a lleoedd addas i nythu.

Barn owls are declining due to a lack of the rough grassland habitat they need for hunting and suitable nesting sites.




Mae'r fisglen berlog yn gallu goroesi am dros 120 mlynedd. Roedd i'w ganfod unwaith trwy'r Afon Ddyfrdwy ond erbyn hyn ceir mewn rhai mannau'n unig.

The freshwater pearl mussel can survive for up to 120 years. Once found throughout the River Dee it is now restricted to a few small sections.



Mae coedwig Clocaenog yn gartref cryf i'r wiwer goch frodorol. Mae'r creaduriaid yn treulio 70% o'u hamser mewn coed, lle maen nhw'n adeiladu nythod gwiwerod ac yn chwilota am fwyd.

Clocaenog Forest is a stronghold for the native red squirrel. These shy creatures spend nearly 70% of their time in trees, where they build their dreys and forage for food.



Mae'r ffriddoedd yn gartref pwysig i nifer o blanhigion ac anifeiliaid prin a hefyd grug a glaswellt y bwla, y grugiar ddu a'r hebog llwydlas.

Upland heath provides important habitat for a number of rare plants and animals including heather and purple-moor grass, black grouse and hen harrier.



# Biodiversity

## in Denbighshire



## How can I help local biodiversity and get involved with Denbighshire's LBAP?

- Denbighshire Countryside Service organise many events to help you to identify, experience and help conserve biodiversity and need volunteers for wildlife surveys and practical work.

- Garden with wildlife in mind and record any wildlife you see, reporting sightings to your biodiversity officer.

- Join a local conservation group or organise a nature walk and enthuse others about wildlife.

- How about getting the company you work for to create a wildlife area or become a Species Champion or helping your local school to discover how fantastic wildlife is!

For more ideas, to find out about events and to learn more about biodiversity, visit **www.biodiversityindenbighshire.co.uk** or contact:

- Denbighshire's Biodiversity Officer on 01824 708234
- County Ecologist on 01824 708263
- Loggerheads Country Park on 01352 810614.

Copies of the Denbighshire LBAP can be downloaded from the website and are also available from your local library.

Produced by Denbighshire Countryside Service with funding from Countryside Council for Wales



**What is Biodiversity?**
Biodiversity is the variety and abundance of life. It includes every living thing, from the tiniest insect to the largest tree, and the habitats in which they live. Biodiversity is found everywhere – even we are part of it! We rely on biodiversity to keep our air and water clean, our soil fertile and to provide us with food, shelter, clothing and medicine. It has influenced our culture and beliefs and improves our quality of life.

**Why should we care about Biodiversity?**
Much of the world's wildlife is under threat and many species have already disappeared. In the UK alone, over 100 species have become extinct in the last 100 years and many more are dangerously close to being lost. We humans and the way we mistreat the environment are mainly to blame; destroying habitats, causing pollution and over-exploiting the Earth's natural resources. Don't despair though, we can help address this, by working together to conserve and care for our wildlife and through Local Biodiversity Action Plans.

**What is a Local Biodiversity Action Plan?**
Denbighshire's biodiversity is part of a global network and our Local Biodiversity Action Plan (LBAP): 'Our Future with Wildlife' is the means to conserve our corner of it. LBAPs identify specific ways to protect the species and habitats within our local environment, not only those that are most endangered and protected by law, but ones which are locally important as well.



It is coordinated through a partnership of skilled and knowledgeable people and organisations who seek to encourage all people to get involved. We all depend on, and enjoy our biodiversity, so we all have a responsibility to conserve it.